

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Ystrad Fawr, Uned a Arweinir
gan Fydwragedd - Canolfan Eni, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 19 – 21 Awst 2019

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	30
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	31
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	32
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	33

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Ystrad Fawr sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 19, 20 a 21 Awst 2019. Mae'r arolygiad hwn yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGIC o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru¹.

Ymwelwyd â'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned a arweinir gan fydwragedd â chwe gwely a dau bwll geni
- Clinig cynenedigol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un obstetrydd ymgynghorol a dwy fydwraig) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹ <https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-wasanaethau-mamolaeth>

2. Crynodeb o'n harolygiad

Er i ni nodi rhai meysydd i'w gwella, yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol â pharch ac urddas i'r cleifion.

Roedd rhai trefniadau da ar waith i gefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol a gwaith tîm amlddisgyblaethol cadarnhaol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y menywod a'u teuluoedd fod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned yn ardderchog
- Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- Arolygwyd bod proses ddiogel a chadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Roedd y ddogfennaeth o safon uchel
- Rhoddwyd cymorth da gan fydwragedd arbenigol mewn meysydd fel hybu iechyd
- Gwelwyd gwybodaeth ardderchog yn hybu iechyd ym mhob rhan o'r uned
- Roedd y gofal a roddwyd o safon uchel gyda pharhad clir wrth gynllunio gofal
- Gwelwyd bod yr uned yn lân, yn groesawgar ac yn addas i ddiwallu anghenion darpar famau a'u teuluoedd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Creu gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer monitro curiad calon y ffetws pan fydd cymhlethdodau yn ystod y cyfnod esgor
- Archwilio dyddiadau stoc a gaiff ei storio mewn ystafelloedd teulu nas defnyddir yn aml yn rheolaidd
- Storio sylweddau peryglus.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Ystrad Fawr yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Cafodd y bwrdd iechyd ei sefydlu ar 1 Hydref 2009 ac mae'n darparu gwasanaethau yn ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.

Mae dalgylch cyfan y bwrdd iechyd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn cynnwys tua 600,000 o bobl. Darperir gwasanaethau gofal aciwt, canolraddol a sylfaenol, yn ogystal â gofal cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl. Caiff gwasanaethau eu darparu mewn rhwydwaith o bractisau gofal sylfaenol, clinigau cymunedol, canolfannau iechyd, un ysbyty anabledau dysgu, nifer o ysbytai cymunedol, cyfleusterau iechyd meddwl, un ysbyty cyffredinol lleol a thri ysbyty cyffredinol dosbarth; Ysbyty Brenhinol Gwent, Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr.

Cynigir gwasanaethau mamolaeth i bob menyw a'i theulu sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Mae'r gwasanaethau mamolaeth hefyd yn darparu gofal i fenywod sy'n dewis rhoi genedigaeth yng nghyfleusterau'r bwrdd iechyd sy'n byw y tu allan i'r ffin ddaearyddol.

Mae'r bwrdd iechyd yn profi tua 6,000 o enedigaethau'r flwyddyn ar gyfartaledd, gyda thua 307 o'r rheini yn Ysbyty Ystrad Fawr.

Caiff menywod sy'n rhoi genedigaeth o fewn y bwrdd iechyd ddewis o blith pedwar lleoliad geni. Mae'r rhain yn cynnwys geni yn y cartref, uned bydwreigiaeth annibynnol, gofal a arweinir gan fydwragedd mewn uned bydwreigiaeth ochr-yn-ochr ac uned obstetrig. Ceir uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd (canolfan eni) yn Ysbyty Ystrad Fawr sy'n cynnwys tair ystafell eni, dau bwl eni a phedair ystafell wely ôl-enedigol i deuluoedd.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd y cleifion yn gadarnhaol ynghylch eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth a roddwyd iddynt. Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion.

Gwnaethom nodi gwelliannau o ran y broses o fonitro curiad calon y ffetws pan gaiff abnormalrwydd ei ganfod yn ystod y cyfnod esgor a'r angen am bolisi i sicrhau cysondeb yn y gofal a roddir.

Gwnaethom argymhell y dylai gwybodaeth am y ffordd y gall y cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr godi pryderon am eu gofal fod ar gael yn rhwydd ac i'w gweld yn glir.

Dylai'r cleifion a'u teuluoedd gael gwybod hefyd am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, teuluoedd a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir i gleifion. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad ag wyth claf bob dydd ar gyfartaledd yn ystod yr arolygiad.

Roedd y cleifion a gwblhaodd holiaduron o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned famolaeth yn ardderchog (nodwyd sgoriau o wyth allan o 10 ac uwch). Dywedodd y cleifion a'u teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw y cawsant brofiad da yn yr uned hefyd. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Mae pob aelod o'r staff wedi bod yn hynod gefnogol a gwybodus, ac wedi ein galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus".

"Arhosodd y fydwraig y tu hwnt i'w horiau gwaith. Roedd hi'n anhygoel."

"Mae'r staff yn mynd yr ail filltir, mae'r gofal i gleifion yn gyson ac mae'r cleifion yn hapus iawn â'r gofal maen nhw'n ei gael."

"Mae gennym ni hyder yn y bydwagedd a'r staff meddygol sy'n gofalu amdanon ni."

"Mae'r bydwagedd a'r staff meddygol yn rhoi gofal rhagorol."

Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei harddangos ar gyfer y cleifion ar hysbysfyrdau ac mewn taflenni. Roedd gwybodaeth mewn perthynas â chyngor bwydo ar y fron a chysylltiad croen â chroen yn cael ei harddangos yn y coridorau, er mwyn hysbysu'r cleifion am fanteision bwydo ar y fron a chysylltiad croen â chroen i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u gofal.

Gwelsom wybodaeth hefyd am roi'r gorau i smygu yn yr uned. Dywedwyd wrthym hefyd fod y bwrdd iechyd wedi cyflogi tri chynghorydd rhoi'r gorau i smygu yn ddiweddar i roi cymorth a gwybodaeth i'r cleifion.

Gwelsom lechen ar y wal yn datgan bod yr uned wedi cael ei hachredu gan UNICEF² yn 2017 am fod yn gyfeillgar i fabanod. Cadarnhawyd bod yr achrediad yn cael ei adolygu bob tair blynedd er mwyn cadarnhau cydymffurfiaeth.

Roedd posteri hylendid dwylo a chanllawiau ar olchi dwylo yn cael eu harddangos yn nhoiledau'r cleifion.

² <https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/> - Mae'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod yn trawsnewid gofal iechyd i fabanod, eu mamau a theuluoedd yn y DU, fel rhan o bartneriaeth fyd-eang ehangach rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac Unicef.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn garedig ac yn dosturiol tuag at y cleifion. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Roedd y mwyafrif o'r sylwadau yn holiaduron y cleifion yn gadarnhaol iawn.

Gwnaethom hefyd weld y staff yn hybu preifatrwydd ac urddas wrth helpu'r cleifion gyda'u gofal personol yn y clinig cynenedigol. Gwnaethom adolygu'r dogfennau gofal ac ni welsom unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder ynghylch gofal ag urddas.

Roedd cyfleusterau en-suite ym mhob ystafell eni ac ôl-enedigol er mwyn cefnogi preifatrwydd ac urddas yn ystod arhosiad y claf.

Gwelsom fod y staff yn cynnal preifatrwydd y cleifion wrth rannu gwybodaeth. Gwnaethom sylwi ei bod yn arfer cyffredin i'r staff gau drysau ystafelloedd ymgynghori wrth ddarparu gofal a chymorth er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod wedi gweld yr un fydwraig yn yr uned eni ag y gwnaethant yn eu hapwyntiadau cynenedigol. Roedd y mwyafrif o'r cleifion wedi bod yn feichiog ers rhwng chwech a deuddeg wythnos pan gawsant eu hapwyntiad cyntaf a chawsom sylwadau cymysg ynghylch y ffaith bod y cleifion yn cael cynnig dewis ynghylch ble i gael eu babi.

Nododd y staff yn yr uned y byddent yn gallu gofalu'n briodol am unrhyw rieni sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ystafell ôl-enedigol yn cael ei newid a'i defnyddio pe byddai angen er mwyn gofalu am deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth mewn amgylchedd tawel a chroesawgar. Dywedwyd wrthym hefyd fod y gwasanaeth wedi penodi bydwraig profedigaeth a oedd yn gweithredu fel yr arweinydd ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan. Roedd yr ysbyty hefyd yn darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd ganddo gapel ysbyty aml-ffydd at ddefnydd y cleifion a'u teuluoedd. Dywedwyd wrthym hefyd am drefniadau i alluogi cleifion o grefyddau gwahanol i ddefnyddio'r ystafelloedd gweddio er mwyn diwallu eu hanghenion ysbrydol

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod y cyfarwyddiadau i'r uned famolaeth yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty. Pan oedd angen mynediad y tu allan i oriau craidd, roedd arwyddion yn cael eu harddangos yn glir er mwyn cyfeirio pobl yn briodol i'r uned eni drwy ddrws mynediad y tu allan.

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn Saesneg, gydag ychydig o wybodaeth yn Gymraeg. Dywedwyd wrthym gan yr uwch-reolwyr adrannol fod rhaglen dreigl ar waith i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn ddwyieithog, a bod y wybodaeth bresennol yn cael ei chyfieithu ar hyn o bryd.

Roedd hysbysfyrddau ym mhob rhan o'r uned yn tynnu sylw at sawl ymgyrch hybu iechyd, fel bwydo ar y fron, Bee Knowledgeable³, Naw Mis a Mwy⁴, Cychwyn Iach⁵ a rhoi'r gorau i smygu. Roedd manylion staffio yr uned o ddydd i ddydd hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

Gan fod hon yn uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd⁶, roedd yr amseroedd ymweld yn hyblyg. Roedd pob ystafell yn breifat sy'n golygu y gallai partneriaid geni neu aelodau eraill o'r teulu fod yn bresennol cyn, yn ystod ac ar ôl yr enedigaeth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellir cael gafael ar y rhain. Gellid adnabod bydwragedd Cymraeg hefyd o'r logo siaradwr Cymraeg⁷ ar eu gwisg.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn teimlo'n gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt â'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu

³ Menter famolaeth fewnol yn y bwrdd iechyd yw Bee Knowledgeable er mwyn hybu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl amenedigol a rhoi cymorth ac arweiniad pan fo angen.

⁴ Llyfr yw Naw Mis a Mwy a ysgrifennwyd gan rieni, gweithwyr iechyd proffesiynol a seicolegwyr plant ac mae'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol sydd â'r nod o gefnogi rhieni ar hyd y llwybr o feichiogrwydd cynnar i'r dyddiau cyntaf gyda'r baban ac i flynyddoedd cyntaf y plentyn.

⁵ Menter gan y GIG a Newid am Oes yw Cychwyn Iach sy'n cynnig llaeth, ffrwythau, llyisiau a fitaminau am ddim i ddarpar famau a theuluoedd.

⁶ Mae uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd yn cynnig amgylchedd cartrefol, sy'n galluogi menywod i roi genedigaeth mewn lleoliad anghlinigol.

⁷ Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi'r siaradwyr Cymraeg mewn tîm. Os yw rhywun yn gwisgo bathodyn, neu laniard, mae hyn yn dangos y gallant sgwrsio yn Gymraeg.

siarad â'r staff pan oedd angen iddynt wneud hynny. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hefyd fod y bydwragedd a'r staff meddygol wedi gwranddo arnynt yn ystod eu harhosiad.

Fodd bynnag, roedd pedwar o'r 13 o holiaduron a gwblhawyd hefyd yn nodi nad oedd y fydwraig wedi gofyn iddynt sut roeddent yn teimlo ac yn ymdopi'n emosiynol yn ystod y cyfnod cynenedigol.

Gwelsom fod y staff yn yr uned eni'n cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau trosglwyddo sifftiau. Gwnaed hyn er mwyn rhannu a thrafod anghenion a chynlluniau'r cleifion gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei nodi mewn taflenni trosglwyddo, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw gleifion a oedd yn bresennol yn yr uned eni ar esgor nac wedi rhoi genedigaeth.

Dywedwyd wrthym hefyd fod tudalen Facebook ar gyfer gwasanaeth mamolaeth y bwrdd iechyd wedi'i chreu er mwyn gallu cyfathrebu â mamau newydd a rhannu profiadau a rhoi adborth. Dywedwyd wrthym y cafwyd 8,000 o ymweliadau â'r dudalen cyfryngau cymdeithasol hyd yma.

Gofal amserol

Er na welwyd unrhyw gleifion yn yr uned eni ar adeg yr arolygiad, dywedodd y staff wrthym y byddent bob amser yn gwneud eu gorau i sicrhau bod y cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd er mwyn diwallu eu hanghenion personol, maeth a chysur. Gwelwyd hyn yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym.

Gwelwyd ei bod yn hawdd cael gafael ar glychau galw yn yr uned ac roedd detholiad llawn o ddiodydd a bwydydd poeth ac oer ar gael ar gais.

Gwelsom fod arsylwadau ar y cleifion yn cael eu cofnodi ar siart a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn nodi'r cleifion a all fod yn mynd yn sâl neu'n datblygu sepsis. Roedd y staff yn ymwybodol o'r adnodd sgrinio a'r system rhoi gwybod am sepsis, ac yn sicrhau ei bod yn bosibl cymryd camau priodol ac amserol.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn yr uned eni wrthym eu bod yn llwyddo i ddarparu gofal o safon uchel yn ystod eu diwrnod gwaith.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom ei bod yn hawdd i bawb ddefnyddio'r cyfleusterau ym mhob rhan o'r uned.

Roedd llinell iaith ar gael ar gyfer y cleifion hynny nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a oedd yn golygu eu bod yn gallu derbyn gofal a fyddai'n briodol i'w hanghenion.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn yr uned a gwelsom dystiolaeth fod credoau personol a dewisiadau crefyddol y cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynenedigol, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu cynnal drwy gydol eu beichiogrwydd, wrth esgor ac wrth gael gofal ôl-enedigol. Roedd y cynlluniau gofal hefyd yn adlewyrchu'r pwyslais ar hybu annibyniaeth pobl yn seiliedig ar asesiad o'u galluedd.

Roedd y gofalwyr yn cael eu hannog a'u croesawu i aros yn yr uned, er mwyn rhoi cymorth i'r cleifion a all fod ag anghenion ychwanegol.

Hawliau pobl

Roedd teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion, a hynny er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael gwybod am ddewisiadau'r cleifion.

Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym fod trefniadau ymweld agored ar gael, gan ganiatáu i'r partner, neu rywun dynodedig arall, ymweld yn rhydd.

Roedd digon o adnoddau yn yr holl ystafelloedd geni yn cynnwys pêl eni, canllawiau ar y waliau a bagiau ffa er mwyn helpu i fodloni dewisiadau geni'r cleifion. Roedd dwy o'r ystafelloedd geni hefyd yn cynnwys pyllau geni wedi'u plymio i mewn a oedd yn galluogi'r cleifion i ddefnyddio'r pwll wrth esgor.

Dywedwyd wrthym, er mwyn hyrwyddo'r opsiynau geni sydd ar gael i gleifion a rhoi gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg, mae sgysiau'n cael eu cynnal mewn apwyntiadau cofrestru cychwynnol a thrwy gydol y beichiogrwydd. Fodd bynnag, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion a gwelsom nad oedd llawer o gofnodion o drafodaethau â'r cleifion ynghylch eu dewisiadau geni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff trafodaethau â'r cleifion ynghylch eu dewisiadau geni eu cofnodi yn nogfennau'r cleifion, er mwyn sicrhau y gellir cefnogi eu dewisiadau yn effeithiol.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom daflenni gwybodaeth a phosteri yn yr uned mewn perthynas â'r weithdrefn gwyno y dylai'r cleifion ei dilyn pe bai ganddynt bryderon y byddent am eu codi. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael am godi pryderon a chymorth eiriolaeth ar wefan y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod arweinydd bydweigiaeth dynodedig yn y bwrdd iechyd a fyddai'n cydweithio â'r tîm Gweithio i Wella⁸ er mwyn ystyried cwynion ffurfiol gan gleifion. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent fel rheol yn rhoi manylion i gleifion am y Cyngor Iechyd Cymuned⁹ a allai gynnig gwasanaethau eirioli a chymorth i godi pryder am eu gofal.

Roedd gan y gwasanaeth broses ar gyfer mynd i'r afael â chwynion nad ydynt yn ffurfiol hefyd, gyda'r bwriad o'u datrys ar y ward a phan gânt eu codi. Gellid cyfeirio cwynion anffurfiol i mewn i'r gwasanaeth drwy adborth a roddir gan gleifion i fydwragedd cymunedol, ymwelwyr iechyd ac ar wefannau cyfryngau cymdeithasol. Dywedwyd wrthym y byddai bydwaig ymgynghorol yn cysylltu â chleifion ar ôl iddynt wneud cwyn gan gynnig trafod y mater, a byddai hefyd yn hyrwyddo'r weithdrefn gwyno ffurfiol pe byddent am ddilyn y llwybr hwn. Dywedwyd wrthym eu bod yn gobeithio mynd i'r afael ag unrhyw bryderon drwy wneud hyn, ond hefyd gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw faterion ymarfer y gall fod angen eu datrys yr ystyriwyd ei fod yn arfer a oedd yn werth ei nodi.

Yn sgil adolygiad o wasanaethau mamolaeth bwrdd iechyd cyfagos¹⁰, dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wrthi'n ceisio hyrwyddo ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol gyda'r nod o gasglu adborth y cleifion. Dywedwyd wrthym fod yr adborth a geir yn cael ei gyflwyno bob mis yng nghyfarfodydd llywodraethu clinigol y gwasanaeth, gan nodi unrhyw themâu neu dueddiadau.

Gwelsom fod cardiau canmoliaeth yn cael eu harddangos a bod bwrdd graffiti yn yr uned a oedd yn rhoi cyfle i'r cleifion ysgrifennu sylwadau am y gofal a'r driniaeth roeddent wedi eu cael. Gwelsom fod llawer o sylwadau cadarnhaol gan y cleifion, yn diolch i'r staff yn yr uned. Fodd bynnag, efallai nad yw'r cleifion a'u

⁸ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

⁹ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

¹⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/adroddiad-adolygiad-o-wasanaethau-mamolaeth-bwrdd-iechyd-cwm-taf.pdf>

teuluoedd yn teimlo'n gyfforddus yn cynnwys unrhyw brofiadau negyddol ar y bwrdd graffiti. Gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd i ystyried ffyrdd y gellid rhoi adborth yn gyfrinachol, yn cynnwys ailddechrau defnyddio blwch sylwadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a theuluoedd yn cael gwybod am y Cyngor Iechyd Cymuned sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd bod rhai prosesau da ar waith yn yr uned ar gyfer cefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau, asesu poen a digwyddiadau clinigol, gan sicrhau y caiff gwybodaeth a gwersi eu rhannu ar draws y gwasanaeth.

Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas ag atal heintiau, storio sylweddau peryglus ac archwilio dyddiadau stoc mewn ystafelloedd geni.

Gwelsom fod diogelwch cleifion yn cael ei hybu mewn cynlluniau gofal dyddiol ac ategwyd hyn yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym.

Roedd y gwasanaeth yn disgrifio trefniadau da ar gyfer gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys darparu hyfforddiant i staff.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr uned yn amlwg yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, ei bod yn lân, a'i bod wedi'i goleuo'n briodol a'i hawyru'n dda. Roedd yr uned yn drefnus iawn gyda stoc o nwyddau meddygol yn cael ei chynnal. Er i ni weld yn gyffredinol bod camau yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch ym mhob rhan o'r uned, gwelwyd yn y ddwy ystafell lle ceir pyllau geni fod hylif glanhau wedi'i adael allan ar yr arwynebau gwaith a oedd yn risg iechyd a diogelwch. Codwyd y mater hwn ar adeg yr arolygiad a chafodd ei unioni ar unwaith.

Gwnaethom ystyried amgylchedd yr uned a nodi bod mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau bod y babanod yn ddiogel yn yr uned.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau yn yr uned ar gyfer cael gafael ar help a chymorth brys mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf. Gwelsom fod seiniwr brys a chlychau galw ar gael ym mhob ystafell er mwyn galw am gymorth yn gyflym.

Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Roedd y cyffuriau brys hefyd wedi'u storio ar y troli brys a chawsom sicrwydd bod y cyfarpar hwn yn cael ei archwilio bob dydd er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Nodwyd gennym fod cyfarpar brys priodol yn yr ystafelloedd lle ceir pyllau geni er mwyn tynnu'r cleifion o'r pwll yn gyflym. Cawsom sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar hwn mewn argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynhyrchion glanhau eu storio'n briodol.

Atal cwmpiadau

Gwelsom fod asesiad risg ar waith ar gyfer cleifion sy'n defnyddio'r pyllau geni yn yr uned. Cawsom wybod y byddai unrhyw achos lle byddai claf wedi cwmpo yn cael ei gofnodi drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd, a byddai ei system cofnodi digwyddiadau yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi, ac y cymerir camau priodol.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod ardaloedd clinigol yr uned yn lân ac yn daclus a gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur a'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod o'r farn bod yr uned yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom bob aelod o'r staff yn cynnal y safonau o fod yn Noeth o dan y Penelin¹¹ a gwelsom ddulliau hylendid dwylo da. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos

¹¹ Yr arfer gorau yw bod y staff sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn uniongyrchol yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd neu ewinedd ffug.

y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo fel sbardun gweledol ar gyfer y staff. Roedd gel hylendid dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned.

Rhodddwyd sicrwydd i ni hefyd fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau o safon uchel, ac y byddai unrhyw bryderon a godwyd am atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgwyfeirio i uwch-aelodau o'r staff. Gwelsom ganlyniadau o archwiliad rheoli heintiau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y bwrdd iechyd. Dangosodd yr archwiliad hwn fod cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoli heintiau yn uchel ac yr ymdrinnir ag unrhyw waith gofynnol mewn modd amserol. Fodd bynnag, gwelsom fod dwy gadair ogwyddol yn yr ystafelloedd ôl-enedigol wedi torri a bod y defnydd wedi hollti a allai beryglu prosesau atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod labeli penodol ar gyfarpar i ddynodi ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio a gwelsom fod amserlenni glanhau ar waith ar gyfer yr uned a'u bod yn gyfredol.

Gwelwyd bod pob ystafell yn yr uned yn cynnwys en-suite at ddefnydd y cleifion pe bai angen nyrsio ataliol, er mwyn helpu i atal heintiau rhag cael eu trosglwyddo i'r cleifion eraill.

Dywedwyd wrthym fod y pwll geni'n cael ei lanhau bob dydd, a bod archwiliad wythnosol o'r dŵr yn cael ei gynnal. Roedd yr archwiliadau hyn yn sicrhau bod y pwll geni'n cael ei lanhau'n briodol a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cadeiriau gogwyddol yn yr uned yn cael eu harchwilio ac yn cael eu cyfnewid am rai newydd lle y bo angen er mwyn cynnal gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Maeth a hydradu

Ar adeg yr arolygiad, ni welwyd unrhyw gleifion yn yr uned eni, ond dywedwyd wrthym fod bwyd a diod poeth ac oer ar gael 24 awr y dydd. Roedd cyfleusterau ar gael i'r staff yn yr uned wneud bwyd a diod i'r cleifion y tu allan i oriau craidd, a oedd yn golygu y gellid diwallu anghenion maeth bob awr o'r dydd a'r nos.

Roedd cyfleusterau ar gael i brynu diodydd os oedd angen yn y clinig cynenedigol. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod jygiau dŵr a chyfleusterau te a choffi ar gael ym mhob un o'r ystafelloedd geni.

Yng nghofnodion gofal y cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom fod gofynion y cleifion o ran maeth a hylifau yn cael eu dogfennu'n dda.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau yn yr uned eni a gwelsom fod tymereddau storio'r meddyginiaethau yn cael eu gwirio'n gyson bob diwrnod.

Gwelsom fod y gwaith o storio, archwilio a rhoi cyffuriau a reolir yn cael ei wneud yn ddiogel. Cawsom sicrwydd bod proses a gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli cyffuriau a reolir yn yr uned.

Fodd bynnag, gwelsom fod ffiolau o ddŵr ar gyfer chwistrellu a menig di-haint a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad yn yr ystafelloedd geni nad oeddent yn cael eu defnyddio'n aml a oedd yn golygu nad oeddent yn ddiogel i'w defnyddio. Uwchgyfeiriwyd hyn i'r fydwraig â chyfrifoldeb ar unwaith a chafodd adolygiad llawn o'r stoc yn yr ystafelloedd geni ei gynnal ar unwaith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddyginiaeth a gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n briodol. Roeddent yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi.

Roedd cymorth fferyllol ar gael ar gyfer yr uned ac roedd proses gyfrifiadurol y tu allan i oriau ar gael i'r staff weld cyflenwad ac argaeledd cyffuriau yn yr ysbyty yn ystod yr adegau hyn, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw oedi wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion. Roedd gan yr uned gyflenwad o feddyginiaeth y gallai'r cleifion fynd â hi adref gyda nhw hefyd, a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn gallu cael eu rhyddhau'n amserol.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd ar gael yn electronig i'r staff ac roedd hefyd yn cael ei storio mewn ffeil yn ardaloedd yr uned fel y gallai'r staff gael gafael arno'n rhwydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarpar a deunyddiau ym mhob ystafell eni yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr eitemau heb fynd heibio eu dyddiad a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg neu'n agored i niwed. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant diogelu gorfodol o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd hyfforddiant diogelu'n rhan o ddiwrnodau astudio gorfodol y bwrdd iechyd, a dywedwyd wrthym fod y sesiynau yn cynnwys hyfforddiant ac arweiniad ar anffurfio organau cenhedlu menywod (FGM), cam-drin domestig, camfanteisio rhywiol a chleisiau ar fabanod, yn ogystal â'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu.

Dywedwyd wrthym fod sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y staff yn cael eu hannog i drafod materion mewn sesiwn goruchwyllo grŵp. Roedd y fydwraig ddiogelu arweiniol hefyd ar gael ar gyfer trafodaethau ffôn i ddarparu cymorth ac arweiniad i'r staff yn yr uned. Roedd sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar, ac roedd yn orfodol i'r staff fynd i ddwy sesiwn y flwyddyn. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi dechrau cyflwyno'r hyfforddiant hwn i'r bydwragedd cymunedol yn ddiweddar, gyda'r bwriad o ymestyn hyn i weddill y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i roi gwybod i'r staff am bryderon diogelu mewn perthynas â derbyn cleifion i'r uned, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn modd priodol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer archwilio cyfarpar dadebru yn yr uned eni a'r clinig cynenedigol. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr offer yn addas i'w defnyddio.

Gwelsom hefyd fod archwiliadau o gyfarpar arall, fel peirannau monitro pwysedd gwaed, yn cael eu cynnal mewn modd cyson a rheolaidd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cardiocograffeg (CTG)¹² ar gael yn yr uned eni i fonitro cleifion cynenedigol yn bennaf sy'n mynd i'r uned fel cleifion dydd. Gwnaethom nodi bod rhai aelodau o'r staff yn defnyddio'r monitor hwn pe byddai abnormalrwydd yn

¹² Peiriant a ddefnyddir i gofnodi curiad calon y ffetws, lle mae proses fonitro CTG barhaus ar waith

cael ei ganfod yng nghuriad calon y ffetws yn ystod y cyfnod esgor. Pe byddai pryderon yn cael eu canfod gyda churiad y galon, byddai camau yn cael eu cymryd ar unwaith, yn cynnwys trosglwyddo claf i uned obstetrig pe byddai angen. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd unrhyw weithdrefn weithredu safonol ar waith er mwyn sicrhau cysondeb. Er ein bod wedi cael sicrwydd bod y camau priodol ar waith, roeddem o'r farn bod angen gweithdrefn er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion.

Gwelsom fod y cleifion yn yr uned clinig cynenedigol i'w gweld yn gyfforddus a'u bod yn cael gofal da. Gwelsom dystiolaeth dda hefyd o gynlluniau asesu a thriniaeth feddygol yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym.

Dywedodd y staff wrthym y byddent bob amser yn sicrhau bod y cleifion yn yr uned eni yn gyfforddus ac yn cael gofal da. Byddai meddyginiaethau lleddfpu poen ar gael i'r cleifion yn ystod y cyfnod esgor, a gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi'n briodol wrth ddarparu gofal ôl-enedigol a bod y cleifion yn ei chael yn brydlon yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym.

Gwelsom y staff yn blaenoriaethu anghenion clinigol a gofal cleifion yn effeithiol yn y clinig cynenedigol. Er nad oedd unrhyw gleifion yn yr uned eni ar adeg ein harolygiad, roedd yn amlwg o gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym fod anghenion y cleifion yn cael eu blaenoriaethu'n briodol fel rhan o'r cynlluniau gofal.

Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn gallu ei roi i'w cleifion. Yn seiliedig ar drafodaethau â'r staff a rhai sylwadau a wnaed yn holiaduron y cleifion, gwnaethom gadarnhau bod y staff weithiau'n mynd gam ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol ganddynt oherwydd natur eu rôl a'u hymrwymiad iddi.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd bydwaig ymchwil glinigol ac arloesedd arweiniol ar waith, a oedd yn gweithio ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd. Roedd bydwragedd ymchwil hyrwyddol hefyd wedi cael eu penodi ar draws y gwasanaeth, ac roeddent yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil er mwyn cefnogi'r tîm. Roedd y tîm yn cymryd rhan mewn ymchwil yn gysylltiedig â phrosiectau prifysgol leol er mwyn cefnogi'r gwaith o wella'r gwasanaeth a phrofiad y cleifion.

Roedd gwella'r ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth yn ffurfio rhan fawr o waith y tîm. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi gwella ei ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys tudalen Facebook fel ffordd o ymgysylltu â'r cleifion.

Dangoswyd tystiolaeth o'r e-bost cyffredinol a sefydlwyd hefyd. Byddai'r e-bost yn cael ei anfon pan fyddai'r menywod yn cofrestru eu beichiogrwydd am y tro cyntaf mewn clinig cynenedigol a byddai cymorth, cyngor ac arweiniad yn cael eu cynnig o'r adeg honno.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y fewnrwyd yn llawn gwybodaeth i'r staff, gan gynnig amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau clinigol yn ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt.

Gwelsom fod yr uned yn defnyddio dangosfwrdd mamolaeth. Adnodd electronig yw hwn i fonitro perfformiad clinigol gwasanaethau mamolaeth a'r ffordd y cânt eu llywodraethu. Gall hyn hefyd helpu i nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion fel y gellir cymryd camau gweithredu amserol a phriodol i sicrhau gofal o ansawdd uchel.

Dywedwyd wrthym hefyd fod manylion penodol ar gyfer cael mynediad i gyfrifiadur ar gael i bob aelod o'r staff yn yr uned er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei llywodraethu i safon uchel.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn dda, gyda dogfennaeth glir, a oedd yn cael ei chwblhau'n amserol.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion bydwreigiaeth cynenedigol ac ôl-enedigol o fewn yr uned. Roedd y cofnodion yn dangos bod poen yn cael ei asesu a'i reoli'n briodol. Roedd asesiadau risg priodol, gan gynnwys y rheini ar gyfer thrombosis gwythiennau dwfn, wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, yng nghofnodion rhai cleifion gwelsom anghysondeb ynghylch ble roedd y wybodaeth yn cael ei chofnodi, er enghraifft, gwelwyd bod gwybodaeth a ddylai gael ei chynnwys mewn cynlluniau gofal wedi'i nodi ar dudalennau nodiadau ychwanegol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nodiadau'r cleifion yn cael eu trefnu'n glir a bod cofnodion cryno yn cael eu cynnal.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y staff yn ymdrechu i roi gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da i gleifion yn yr uned.

Roedd bydwagedd arbenigol wedi cael eu penodi ar draws y bwrdd iechyd, a nodwyd gennym eu bod yn adnoddau defnyddiol a gwybodus i dimau'r uned.

Nododd y staff fod gwaith tîm amlddisgyblaethol da ar waith, a gwelsom dystiolaeth i gefnogi hyn.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau arwain a rheoli cefnogol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y cymorth roeddent yn ei gael gan yr uwch-aelodau o'r staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Caiff y gwasanaethau mamolaeth a ddarperir yn Ysbyty Ystrad Fawr eu cefnogi'n glinigol, os bydd angen, gan yr unedau obstetrig (unedau ar gyfer beichiogrwydd mwy cymhleth) yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall. Fodd bynnag, gwelsom fod Ysbyty Ystrad Fawr yn hunangynhaliol o ran rheoli, arwain ac atebolrwydd.

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi bwriadu canoli'r gwasanaethau mamolaeth, newydd-anedig a phediatrig i Ysbyty Llanfrechfra Grange yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y bydd Ysbyty Ystrad Fawr yn parhau i fod yn ganolfan eni annibynnol fel rhan o'r rhaglen dyfodol clinigol.

Cynhelir cyfarfod Bwrdd Trosglwyddo Menywod a Phlant bob chwe wythnos gan y gyfarwyddiaeth. Cynhelir y cyfarfod hwn er mwyn darparu trosolwg strategol o'r gwasanaeth, mewn perthynas â gwasanaethau eraill o fewn prif safleoedd yr ysbyty.

Gwelsom fod lefelau staffio'r gwasanaeth yn cael eu monitro a'u llywodraethu'n dda ar y cyfan, a chawsom sicrwydd bod y gofrestr risg fewnol yn cael ei monitro'n briodol a bod camau'n cael eu cymryd pan oedd angen.

Gwelsom hefyd fod gweithgarwch archwilio'n mynd rhagddo a oedd yn cael ei fonitro a'i gyflwyno mewn cyfarfodydd a fforymau ansawdd, diogelwch a risg priodol.

Roeddem yn gallu gweld bod y gweithgareddau clinigol a chanlyniadau'r cleifion yn cael eu goruchwyllo'n dda. Roedd dangosfwrdd mamolaeth yn cael ei gynhyrchu bob mis, a oedd yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r bwrdd iechyd cyfan, ond hefyd wybodaeth mewn perthynas â phob ysbyty unigol. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth am weithgarwch clinigol yn yr uned h.y. nifer a chategori'r genedigaethau (gweiniol, toriad cesaraidd, â chymorth), ysgogi cyfnodau esgor, a hefyd ddangosyddion a digwyddiadau clinigol, fel cwynion, ymchwiliadau, eclampsia¹³, derbyniadau gofal dwys, trallwysiadau gwaed, derbyniadau babanod newydd-anedig ac afiachusrwydd babanod newydd-anedig. Roedd y dangosfwrdd yn cael ei osod yn goch, yn felyn neu'n wyrdd yn dibynnu ar lefel y risg sy'n golygu y gellid rheoli camau blaenoriaethu yn briodol wrth reoli risg.

Yn ogystal, cadarnhaodd yr uwch-dîm rheoli fod camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol, fel Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol (MBBRACE)¹⁴ ac Each Baby Counts¹⁵ yn cael eu cymryd yn yr uned. Y nod yw gwella gofal a phrofiad cleifion a'r broses o adrodd ar gamau i leihau risg a diogelwch cleifion yn y dyfodol. Mae cyrff archwilio cenedlaethol perthnasol fel MBBRACE yn

¹³ Dechrau cael ffitiau yn ystod beichiogrwydd yw eclampsia

¹⁴ MBBRACE - Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol yn gweithio ledled y DU gyda'r nod o gyflwyno gwybodaeth gadarn i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a babanod diogel, teg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

¹⁵ Each Baby Counts - sef rhaglen gwella ansawdd genedlaethol Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr i leihau nifer y babanod sy'n marw neu sy'n dioddef anabledd difrifol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod esgor.

dilysu'r gwaith hwn yn allanol bob blwyddyn, a gwneir gwaith parhaus i sicrhau bod yr uned yn cydymffurfio â'r argymhellion a wneir.

Roedd y bwrdd iechyd yn dangos proses glir a chadarn o ran rheoli digwyddiadau clinigol. Roedd bydwraig llywodraethu arweiniol ar waith, a oedd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r broses o reoli ymchwiliadau amlddisgyblaethol yn glinigol. Dywedodd pob aelod o staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau ac nad oedd camau i fynd i'r afael â'r rhain mewn modd cosbol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael y cyfle i gael amser anghlinigol, gan ei alluogi i adolygu digwyddiadau yn briodol, oedd yn cael ei ystyried yn arfer da.

Roedd cyfarfod llywodraethu clinigol yn cael ei gynnal bob mis, a oedd hefyd â goruchwyliaeth dros y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Roedd y fydwraig llywodraethu arweiniol hefyd yn cyflwyno themâu a thueddiadau yn y cyfarfod hwn, gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw feysydd ymarfer roedd angen mynd i'r afael â nhw ar draws y bwrdd iechyd. Ar ôl y cyfarfod, byddai cylchlythyr adborth misol yn cael ei gynhyrchu a'i ddsbarthu i bob aelod o'r staff, gan grynhoi materion y mis. Gwelsom hefyd fod y cylchlythyr hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn rhoi adborth cadarnhaol i'r staff, ac i dynnu sylw at enghreifftiau o arfer da. Roedd cyfarfodydd risg misol yn cael eu cynnal yn Ysbyty Ystrad Fawr lle câi digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, ymchwiliadau a'u canfyddiadau eu trafod mewn fformat amlddisgyblaethol. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cynhyrchu a bod gwybodaeth/gwersi yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i ymarfer a dysgu. Roedd y wybodaeth hon hefyd yn cynnwys lleoliadau mamolaeth eraill yn y bwrdd iechyd, gyda'r nod o rannu arfer gorau ac unrhyw wersi er mwyn gwella ymarfer a phrosesau.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Yn gyffredinol, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad a'r mwyafrif o'r rhai a gwblhaodd holiaduron eu bod o'r farn bod eu huwch-reolwyr yn llwyr gefnogol ohonynt a bod y cymorth gan gymheiriaid hefyd yn dda iawn. Nododd y staff fod gweithio amlddisgyblaethol da ar waith yn y gwasanaeth. Dywedodd un aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC:

“Have always found all of the management team to be supportive both in work related and personal situations”.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y sefydliad yn annog ac yn cefnogi gwaith tîm.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu cynnwys yn y broses o benderfynu ar newidiadau a gyflwynwyd a allai effeithio ar eu gwaith a dywedodd hanner y staff fod y broses gyfathrebu'n effeithiol.

Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym fod y rotas bydwagedd yn cael eu rheoli'n dda yn yr uned. Os oedd prinder staff cyflenwi, byddai bydwagedd cymunedol yn cael eu galw neu byddai uwch-reolwyr yn cyflenwi. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw mai prin oedd y problemau o ran cyflenwi staff a bod yr uwch-aelodau o'r staff yn rheoli hyn yn dda.

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb y staff a chydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd yn cael ei wneud ar-lein, megis hyfforddiant ar iechyd a diogelwch, diogelwch tân a diogelu, a chaiff ei fonitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae'r staff yn cael negeseuon i roi gwybod iddynt pan fydd eu hyfforddiant yn dod i ben er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni terfynnau amser.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal tri diwrnod astudio gorfodol sy'n ymwneud â mamolaeth yn ystod y flwyddyn. Mae un o'r diwrnodau hyn yn cynnwys hyfforddiant obstetrig ac amlbroffesiynol PROMPT, sef digwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol a ddefnyddir er mwyn annog gweithio amlddisgyblaethol mewn achosion brys. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mynychu'r hyfforddiant pan fyddant yn gallu a'i fod yn ddefnyddiol iawn. Dangoswyd ffigurau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant PROMPT a chawsom sicrwydd bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn briodol o fewn y terfynau amser cywir.

Roedd hyfforddiant ar y diwrnodau astudio gorfodol eraill yn cynnwys hyfforddiant CTG, diogelu, rhoi gwybod am ddigwyddiadau, cymorth cynnal bywyd sylfaenol, goruchwyllo ac iechyd y cyhoedd ymysg pynciau eraill.

Roedd y bwrdd iechyd yn defnyddio bydwraig arweiniol fel hwylusydd dysgu/ymarfer, a rhan o'i rôl oedd monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn. Roeddem yn gallu gweld bod adroddiad chwarterol yn cael ei gynhyrchu ar gyfer yr uwch-aelodau o'r staff bydwreigiaeth er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant. Mae angen i'r staff drefnu eu bod yn mynychu'r diwrnodau hyfforddi perthnasol, a rhoddir gwybod i'r uwch-dimau am bresenoldeb/absenoldeb y staff yn yr hyfforddiant.

Roedd tri goruchwyllydd clinigol bydwagedd ar waith ar draws y bwrdd iechyd. Eu rôl oedd darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth broffesiynol i'r staff

bydwreigiaeth. Mae targed cenedlaethol i sicrhau bod y goruchwylwyr yn cyfarfod â'r bydwragedd am gyfanswm o bedair awr¹⁶ bob blwyddyn. Roedd y bwrdd iechyd wedi dechrau monitro cydymffurfiaeth â'r targed hwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac roedd yn parhau i'w monitro'n barhaus.

Roedd y goruchwylwyr clinigol bydwragedd hefyd yn gyfrifol am gynnal arfarniadau. Dywedwyd wrthym fod pob arfarniad yn gyfredol yn Ysbyty Ystrad Fawr. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a'u bod yn eu hystyried yn gyfarfodydd cadarnhaol er mwyn helpu i nodi cyfleoedd hyfforddi pellach i wella datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwelsom fod y bydwragedd arbenigol arweiniol yn darparu lefel dda o gymorth. Er nad oeddent wedi'u lleoli yn Ysbyty Ystrad Fawr, gwelsom eu bod yn gwneud ymdrechion i fod yn amlwg i staff yr uned ac yn hawdd mynd atynt. Roedd y wybodaeth a roddwyd i ni yn ystod yr arolygiad yn dangos eu bod yn wybodus ynghylch eu rolau arbenigol, a'u bod yn darparu cymorth ac arweiniad drwy ddiwrnodau astudio, sesiynau goruchwyllo a chyfarfodydd â'r staff yn ôl yr angen.

¹⁶<https://lyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/goruchwyliaeth-glinigol-i-fydwragedd-yng-nghymru.pdf>

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Arolygiad o Ysbyty: Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth:

Ardal:

Dyddiad arolygu:

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw welliannau uniongyrchol yn ofynnol				

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (priflythrennau):

Rôl:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Ystrad Fawr

Ward/adran: Yr Uned Eni a'r Clinig Cynenedigol

Dyddiad arolygu: 19 i 21 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff trafodaethau â'r cleifion ynghylch eu dewisiadau geni eu cofnodi yn nogfennau'r cleifion, er mwyn sicrhau y gellir cefnogi eu dewisiadau yn effeithiol.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynhyrchion glanhau eu storio'n briodol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cadeiriau gogwyddol yn yr uned yn cael eu harchwilio ac yn cael eu cyfnewid am rai newydd lle y bo angen er mwyn cynnal gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarpar a deunyddiau ym mhob ystafell eni yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr eitemau heb fynd heibio eu dyddiad a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nodiadau'r cleifion yn cael eu trefnu'n glir a bod cofnodion cryno yn cael eu cynnal.	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad: